Cyngor
Fferyllol
Cyffredinol

# Safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol

**Mai 2017**

Gellir atgynhyrchu testun y ddogfen hon (ond nid y logo a'r brandio) am ddim ac mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, cyn belled â'i fod wedi ei atgynhyrchu'n gywir a heb fod mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd hwn fel hawlfraint y Cyngor Fferyllol Cyffredinol a rhaid nodi teitl y ddogfen. Os ydych wedi dyfynnu deunydd gan drydydd parti, rhaid i chi gael caniatâd deiliad yr hawlfraint.

Cysylltwch â ni yn **communications@pharmacyregulation.org** os hoffech gopi o'r ddogfen mewn fformat gwahanol (er enghraifft, mewn print mwy neu mewn iaith wahanol).

© Cyngor Fferyllol Cyffredinol 2017.

# Amdanom ni

Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol sy'n rheoleiddio fferyllwyr, technegwyr fferyllol a fferyllfeydd cofrestredig ym Mhrydain.

## Yr hyn a wnawn

Mae ein prif waith yn cynnwys:

- gosod safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant fferyllwyr, technegwyr fferyllol a staff cymorth fferyllol, a chymeradwyo ac achredu eu cymwysterau a'u hyfforddiant
- cynnal cofrestr o fferyllwyr, technegwyr fferyllol a fferyllfeydd
- gosod y safonau ymddygiad a pherfformiad y mae'n rhaid i weithwyr fferyllol proffesiynol eu cyrraedd gydol eu gyrfa
- gosod y safonau datblygiad proffesiynol parhaus y mae'n rhaid i weithwyr fferyllol proffesiynol eu cyrraedd gydol eu gyrfa
- ymchwilio i bryderon nad yw gweithwyr fferyllol proffesiynol yn cyrraedd ein safonau, a gweithredu i gyfyngu ar eu gallu i ymarfer pan fo angen diogelu cleifion a'r cyhoedd
- gosod safonau ar gyfer fferyllfeydd cofrestredig er mwyn iddynt ddarparu gwasanaeth effeithiol a diogel i gleifion
- arolygu fferyllfeydd cofrestredig i sicrhau eu bod yn cyrraedd ein safonau.

# Cyflwyniad

**1** Mae 'gweithwyr fferyllol proffesiynol' (fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol) yn chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o ddarparu gofal a helpu pobl i wella a chynnal eu hiechyd, diogelwch a lles. Mae'r proffesiynoldeb y maen nhw'n ei arddangos yn ganolog i'r ymdrech i gynnal ffydd a hyder y cyhoedd mewn fferylliaeth.

**2** Mae gan gleifion a'r cyhoedd hawl i ddisgwyl gofal diogel ac effeithiol gan weithwyr fferyllol proffesiynol. Credwn mai agwedd ac ymddygiad gweithwyr fferyllol yn eu gwaith bob dydd sy'n cyfrannu'n bennaf at ansawdd gofal, gyda diogelwch yn rhan hanfodol o hynny.

**3** Mae'r safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol yn disgrifio sut y darperir gofal diogel ac effeithiol drwy gyfrwng proffesiynoldeb sydd â'r 'person yn ganolog iddo'. Mae'r safonau yn ddatganiad o'r hyn mae pobl yn ei ddisgwyl gan weithwyr fferyllol proffesiynol, ac yn adlewyrchu hefyd yr hyn mae gweithwyr fferyllol proffesiynol wedi dweud wrthym eu bod yn disgwyl ganddyn nhw eu hunain a'u cydweithwyr.

**4** Wrth galon y safonau, mae'r egwyddor y dylid trin pob person fel unigolyn. Mae gan weithwyr fferyllol proffesiynol rôl bwysig yn y gwaith o gynnwys, cefnogi a galluogi pobl i wneud penderfyniadau am eu hiechyd, eu diogelwch a'u lles. Mae'n bosibl, er enghraifft, na fydd yr hyn sy'n bwysig i un person wrth reoli ei gyflwr byr neu hir dymor yn bwysig i berson arall.

.

# Y safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol

**5** Mae naw safon y mae pob gweithiwr fferyllol proffesiynol yn gyfrifol am eu cyrraedd. Mae'r safonau yn berthnasol ar gyfer pob fferyllydd a thechnegydd fferyllol. Rydym yn gwybod bod gweithwyr fferyllol yn gweithio mewn amrywiaeth o leoliadau a sectorau ac y gallant ddefnyddio gwahanol ddulliau cyfathrebu gyda'r bobl y maent yn darparu gofal ar eu cyfer. Mae'r safonau ar waith ym mha leoliad bynnag y maent yn gweithio. A hyd yn oed pan nad yw gweithwyr fferyllol yn darparu gofal yn uniongyrchol i gleifion a'r cyhoedd, gall eu harferion gwaith effeithio ar y gofal diogel ac effeithiol y mae'r cyhoedd a chleifion yn ei dderbyn, ac ar ffydd y cyhoedd mewn fferylliaeth yn gyffredinol.

**6** Mae angen cyrraedd y safonau drwy'r amser, nid yn ystod oriau gwaith yn unig. Mae hyn oherwydd bod agwedd ac ymddygiad gweithwyr proffesiynol y tu allan i'w gwaith yn gallu effeithio ar ffydd a hyder y cyhoedd mewn gweithwyr fferyllol proffesiynol.

**7** Eglurir ystyr pob un o'r safonau, ac mae enghreifftiau o'r math o agwedd ac ymddygiad y dylai gweithwyr fferyllol proffesiynol eu dangos. Efallai na fydd yr enghreifftiau yn berthnasol i bob sefyllfa.

**8** Mae'r safonau'n cynnwys y term 'gofal â phobl yn ganolog iddo' ac yn cyfeirio at 'bobl' neu 'berson'. Y bobl hyn yw'r 'bobl sy'n derbyn gofal'. Gallai'r term fod yn gymwys hefyd ar gyfer gofalwyr neu gynrychiolwyr cleifion, yn dibynnu ar y sefyllfa.

## Y safonau a myfyrwyr neu hyfforddeion fferylliaeth

**9** Mae'r safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol yn berthnasol i fyfyrwyr a hyfforddeion fferylliaeth tra bônt ar eu taith tuag at gofrestru a gweithio. Mae'r safonau'n egluro'r wybodaeth, agwedd ac ymddygiad a fydd yn ddisgwyliedig gan fyfyrwyr a hyfforddeion os byddant yn gwneud cais i ymuno â'r gofrestr.

**10** Dylid eu dehongli yng nghyd-destun addysg a hyfforddiant a'u defnyddio fel arf i baratoi myfyrwyr a hyfforddeion at gofrestru fel gweithiwr fferyllol proffesiynol.

**11** Dylai myfyrwyr a hyfforddeion ystyried y safonau wrth iddynt nesáu at gofrestru a gweithio'n broffesiynol, a'u darllen ochr yn ochr â dogfennau perthnasol eraill a roddir iddynt gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant cychwynnol.

## Y safonau a chofrestru

**12** Mae'r safonau wedi eu creu i adlewyrchu'r hyn y mae bod yn weithiwr fferyllol proffesiynol yn ei olygu. Maen nhw hefyd wrth galon addysg a hyfforddiant cychwynnol, cofrestru ac adnewyddu fel gweithiwr fferyllol proffesiynol, ac addasrwydd parhaus i ymarfer.

## Gweithredu'r safonau

**13** Mae gweithwyr fferyllol proffesiynol yn bersonol gyfrifol am gyrraedd y safonau a rhaid iddynt allu cyfiawnhau'r penderfyniadau a wnânt.

**14** Rydym yn disgwyl i weithwyr fferyllol proffesiynol ystyried y safonau hyn, eu dyletswyddau cyfreithiol ac unrhyw ganllawiau perthnasol pan fyddant yn gwneud penderfyniadau.

**15** Nid yw'r safonau a'r nodiadau esboniadol yn rhestru'r dyletswyddau cyfreithiol sydd ar weithwyr fferyllol proffesiynol, gan fod yn rhaid i bob gweithiwr fferyllol gadw at ddeddfau perthnasol. Cyhoeddir canllawiau perthnasol gan nifer o sefydliadau, gan gynnwys cyrff arwain proffesiynol, rheoleiddwyr eraill, y GIG, Y Sefydliad Cenedlaethol Er Rhagoriaeth mewn Iechyd a Gofal a'r Scottish Intercollegiate Guidelines Network, yn ogystal â gan y CFfC.

**16** Bydd adegau yn ystod gyrfa gweithiwr fferyllol proffesiynol pan fydd cyfrifoldebau cyfreithiol a phroffesiynol yn gwrthdaro. Neu efallai y bydd sefyllfaoedd cymhleth yn eu hwynebu pan fydd rhaid sicrhau cydbwysedd rhwng blaenoriaethau gwahanol. Mae'r safonau yn rhoi fframwaith i'w helpu wrth wneud penderfyniadau proffesiynol. Rhaid i weithwyr fferyllol proffesiynol weithio mewn partneriaeth gyda phawb sydd ynghlwm wrth y gwaith, a sicrhau mai'r person y maent yn darparu gofal iddo, yw'r flaenoriaeth.

# Safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol

Mae pob gweithiwr fferyllol proffesiynol yn cyfrannu at y gwaith o ddarparu a gwella iechyd, diogelwch a lles cleifion a'r cyhoedd. Mae proffesiynoldeb ac ymarfer effeithiol yn ganolog i'r rôl honno.

Rhaid i weithwyr fferyllol proffesiynol:

1. ddarparu gofal sydd â phobl yn ganolog iddo
2. gweithio mewn partneriaeth ag eraill
3. cyfathrebu'n effeithiol
4. cynnal, datblygu a defnyddio eu gwybodaeth a'u sgiliau proffesiynol
5. defnyddio crebwyll proffesiynol
6. ymddwyn mewn ffordd broffesiynol
7. parchu a chynnal preifatrwydd a chyfrinachedd pobl
8. codi llais pan fo ganddynt bryder neu pan fo rhywbeth yn mynd o chwith
9. arwain yn effeithiol

Gofal diogel ac effeithiol
Gofal â phobl yn ganolog iddo
Gweithio mewn partneriaeth
Cyfathrebu effeithiol
Gwybodaeth a sgiliau proffesiynol
Crebwyll proffesiynol
Ymddygiad proffesiynol
Parch at breifatrwydd a chyfrinachedd personol
Codi llais ynghylch pryderon
Arwain yn effeithiol

# Safon 1

## Rhaid i weithwyr fferyllol proffesiynol ddarparu gofal sydd â phobl yn ganolog iddo

### Gweithredu'r safon

Mae pob person yn unigolyn sydd â'i werthoedd, ei anghenion a'i ofidiau ei hun. Darperir gwasanaeth sydd â phobl yn ganolog iddo pan fo gweithwyr fferyllol proffesiynol yn deall yr hyn sy'n bwysig i unigolion ac yn addasu'r gofal i ddiwallu eu hanghenion – gan wneud gofal dros y person unigol yn brif flaenoriaeth. Gall pob gweithiwr fferyllol proffesiynol arddangos agwedd 'person-ganolog' boed yn darparu'r gofal yn uniongyrchol ai peidio, drwy ystyried effaith eu penderfyniadau ar bobl. Mae nifer o ffyrdd o gyrraedd y safon hon, ac mae enghreifftiau o'r agwedd a'r ymddygiad a ddisgwylir isod.

Mae pobl yn derbyn gofal diogel ac effeithiol pan fo gweithwyr fferyllol proffesiynol yn:

- cael caniatâd i ddarparu gofal a gwasanaethau fferyllol
- cynnwys, cefnogi a galluogi pob person pan fo'n gwneud penderfyniadau am ei iechyd, gofal a lles
- gwrando ar y person ac yn deall ei anghenion a'r hyn sy'n bwysig iddo neu iddi
- rhoi gwybodaeth berthnasol mewn ffordd y gall y person ei deall, er mwyn iddo neu iddi wneud penderfyniadau a dewisiadau doeth
- ystyried effaith ei waith boed yn darparu gofal yn uniongyrchol ai peidio
- parchu a diogelu urddas y person
- cydnabod a gwerthfawrogi amrywiaeth a pharchu gwahaniaethau diwylliannol - a sicrhau bod pob person yn cael ei drin yn deg waeth beth fo'i werthoedd a chredoau
- yn cydnabod eu gwerthoedd a'u credoau eu hunain gan beidio â'u gorfodi ar bobl eraill
- cymryd cyfrifoldeb dros sicrhau nad oes cyfaddawdu yn sgil gwerthoedd a chredoau personol
- Gwneud y defnydd gorau posibl o'r adnoddau sydd ar gael

## Safon 2

# Rhaid i weithwyr fferyllol proffesiynol weithio mewn partneriaeth ag eraill

### Gweithredu'r safon

Mae iechyd, diogelwch a lles person yn  dibynnu ar weithwyr fferyllol proffesiynol yn cydweithio ag eraill, gyda phawb yn cyfrannu at ddarparu'r gofal sydd ar berson ei angen. Mae hyn yn cynnwys y person ei hun, a bydd hefyd yn cynnwys gweithwyr a thimau gofal iechyd eraill. Gall hefyd gynnwys gofalwyr, perthnasau a gweithwyr proffesiynol mewn lleoliadau eraill – megis gweithwyr cymdeithasol a swyddogion iechyd y cyhoedd. Mae nifer o ffyrdd o gyrraedd y safon hon ac mae enghreifftiau o'r agwedd a'r ymddygiad a ddisgwylir isod.

Mae pobl yn derbyn gofal diogel ac effeithiol pan fo gweithwyr fferyllol proffesiynol yn:

- gweithio gyda'r person sy'n derbyn gofal
- nodi'r unigolion a thimau eraill sydd ynghlwm wrth ofal person ac yn cydweithio gyda nhw
- cysylltu â sefydliadau lleol a chenedlaethol, eu cynnwys yn y ddarpariaeth a gweithio gyda nhw
- gweithio'n effeithiol mewn tîm
- addasu eu dulliau cyfathrebu er mwyn cydweithio'n effeithiol gyda phartneriaid
- gweithredu er mwyn diogelu pobl, yn enwedig plant ac oedolion agored i niwed
- cofnodi'r gofal a ddarperir, a chadw'r cofnodion hynny
- cydweithio er mwyn sicrhau dilyniant gofal ar gyfer y person

# Safon 3

## Rhaid i weithwyr fferyllol proffesiynol gyfathrebu'n effeithiol

### Gweithredu'r safon

Gall cyfathrebu ddigwydd mewn llawer o ffyrdd. Mae cyfathrebu'n effeithiol yn hanfodol wrth ddarparu gofal â phobl yn ganolog iddo a gweithio mewn partneriaeth gydag eraill. Mae'n helpu pobl i fod yn rhan o'r penderfyniadau a wneir am eu hiechyd, diogelwch a lles. Mae cyfathrebu'n fwy na dim ond rhoi gwybodaeth i bobl, gofyn cwestiynau a gwrando. Mae'n golygu cyfnewid gwybodaeth rhwng pobl. Mae iaith y corff, tôn y llais a'r geiriau a ddefnyddia gweithwyr fferyllol proffesiynol oll yn cyfrannu at gyfathrebu effeithiol. Mae nifer o ffyrdd o gyrraedd y safon hon ac mae enghreifftiau o'r agwedd a'r ymddygiad a ddisgwylir isod.

Mae pobl yn derbyn gofal diogel ac effeithiol pan fo gweithwyr fferyllol proffesiynol yn:

- addasu eu dulliau cyfathrebu er mwyn diwallu anghenion y person maen nhw'n cyfathrebu ag ef neu hi
- goresgyn y rhwystrau i gyfathrebu
- gofyn cwestiynau ac yn gwrando'n astud ar yr ymatebion, er mwyn deall anghenion y person, a dod i benderfyniad ar y cyd ynghylch y gofal a ddarperir
- gwrando mewn ffordd weithredol ac ymateb i'r wybodaeth a dderbyniant yn brydlon
- sicrhau bod y person wedi deall y wybodaeth mae wedi ei derbyn
- cyfathrebu'n effeithiol gydag eraill sydd ynghlwm â gofal y person

## Safon 4

# Rhaid i weithwyr fferyllol proffesiynol gynnal, datblygu a defnyddio eu gwybodaeth a'u sgiliau proffesiynol

### Gweithredu'r safon

Mae pobl yn derbyn gofal diogel ac effeithiol pan fo gweithwyr fferyllol proffesiynol yn defnyddio'u gwybodaeth a'u sgiliau ac yn sicrhau bod ganddynt y wybodaeth ddiweddaraf, yn cynnwys defnyddio tystiolaeth wrth wneud penderfyniadau. Rhaid i wybodaeth a sgiliau gweithwyr fferyllol proffesiynol ddatblygu gydol eu gyrfa er mwyn adlewyrchu'r newidiadau mewn gofal iechyd, yn y boblogaeth y maen nhw'n darparu gofal ar ei chyfer ac yn eu rolau.  Mae nifer o ffyrdd o gyrraedd y safon hon ac mae enghreifftiau o'r agwedd a'r ymddygiad a ddisgwylir isod.

Mae pobl yn derbyn gofal diogel ac effeithiol pan fo gweithwyr fferyllol proffesiynol yn:

- adnabod y cyfyngiadau sydd ar eu gwybodaeth a'u sgiliau, ac yn gweithio o fewn y cyfyngiadau hynny, ac yn atgyfeirio pan fo angen.
- defnyddio'u sgiliau a'u gwybodaeth, yn cynnwys y dystiolaeth ddiweddaraf, wrth ddarparu gofal a gwella ansawdd y gofal a ddarperir ganddynt
- ymgymryd ag ystod o weithgareddau datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) perthnasol i'w gwaith
- cofnodi eu gweithgareddau datblygu er mwyn dangos bod eu gwybodaeth a'u sgiliau yn gyfredol
- yn datblygu amrywiaeth o ddulliau i fonitro a myfyrio'n gyson ar eu hymarfer, eu sgiliau a'u gwybodaeth

# Safon 5

# Rhaid i weithwyr fferyllol proffesiynol ddefnyddio eu crebwyll proffesiynol

## Gweithredu'r safon

Mae pobl yn disgwyl i weithwyr fferyllol proffesiynol ddefnyddio'u crebwyll proffesiynol wrth ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Gall crebwyll proffesiynol gynnwys cydbwyso anghenion unigolion gydag anghenion cymdeithas yn ei chyfanrwydd. Gall hefyd gynnwys rheoli cyfrifoldebau cyfreithiol a phroffesiynol dyrys a gweithio gyda'r person i ddeall a phenderfynu ar y cyd ar yr hyn sy'n iawn i'r person – yn enwedig os yw'n ymddangos bod gwrthdaro rhwng y gwahanol gyfrifoldebau. Mae nifer o ffyrdd o gyrraedd y safon hon ac mae enghreifftiau o'r agwedd a'r ymddygiad a ddisgwylir isod.

Mae pobl yn derbyn gofal diogel ac effeithiol pan fo gweithwyr fferyllol proffesiynol yn:

- gwneud gofal y person yn brif flaenoriaeth a gweithredu er ei les
- defnyddio'u crebwyll i wneud penderfyniadau clinigol a phroffesiynol gyda'r person neu eraill
- meddu ar y wybodaeth sydd arnyn nhw ei hangen i ddarparu gofal addas
- datgan unrhyw fuddiannau personol neu broffesiynol a'u rheoli'n broffesiynol
- ymarfer ddim ond pan font yn addas i wneud hynny
- cydnabod terfynau eu gallu
- ystyried a rheoli unrhyw amcanion, cymhelliannau neu dargedau personol neu sefydliadol yn briodol, a sicrhau bod y gofal a ddarperir yn adlewyrchu anghenion y person

## Safon 6

# Rhaid i weithwyr fferyllol proffesiynol ymddwyn mewn ffordd broffesiynol

### Gweithredu'r safon

Mae pobl yn disgwyl i fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol ymddwyn yn broffesiynol. Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn cynnal ffydd a hyder mewn fferylliaeth. Nid yw ymddwyn yn broffesiynol wedi ei gyfyngu i'r diwrnod gwaith neu ryngweithio wyneb yn wyneb yn unig. Mae'r fraint o fod yn fferyllydd neu'n dechnegydd fferyllol, a phwysigrwydd cynnal ffydd y cyhoedd yn y proffesiwn, yn golygu bod angen ymddwyn yn briodol drwy'r amser. Mae nifer o ffyrdd o gyrraedd y safon hon ac mae enghreifftiau o'r agwedd a'r ymddygiad a ddisgwylir isod.

Mae pobl yn derbyn gofal diogel ac effeithiol pan fo gweithwyr fferyllol proffesiynol yn:

- foesgar ac yn ystyriol
- ymddwyn yn onest ac yn eirwir ac yn bobl y gellir ymddiried ynddynt
- empathetig ac yn dosturiol
- trin pobl gyda pharch ac yn diogelu eu hurddas
- cynnal ffiniau personol a phroffesiynol priodol gyda'r bobl y maen nhw'n darparu gofal ar eu cyfer a chydag eraill

# Safon 7

## Rhaid i weithwyr fferyllol proffesiynol barchu a chadw cyfrinachedd a phreifatrwydd y person

### Gweithredu'r safon

Mae pobl yn ymddiried mewn gweithwyr fferyllol proffesiynol i barchu a chadw eu cyfrinachedd a'u preifatrwydd, boed mewn lleoliad gofal iechyd – megis ysbyty, neu leoliad gofal sylfaenol neu fferyllfa gymunedol – neu mewn person, neu ar-lein. Mae cynnal cyfrinachedd yn rhan hanfodol o'r berthynas rhwng gweithiwr fferyllol proffesiynol a'r person sy'n derbyn gofal. Gallai pobl fod yn gyndyn o ofyn am ofal pe byddent yn credu bod perygl na fyddai eu gwybodaeth yn cael ei chadw'n gyfrinachol. Mae egwyddorion cyfrinachedd yn dal mewn grym wedi i berson farw. Mae nifer o ffyrdd o gyrraedd y safon hon ac mae enghreifftiau o'r agwedd a'r ymddygiad a ddisgwylir isod.

Mae pobl yn derbyn gofal diogel ac effeithiol pan fo gweithwyr fferyllol proffesiynol yn:

- deall pwysigrwydd rheoli gwybodaeth yn gyfrifol ac yn ddiogel, a gweithredu hyn wrth weithio
- myfyrio ar eu hamgylchedd gwaith ac yn gweithredu i gadw cyfrinachedd a phreifatrwydd y person
- peidio â thrafod gwybodaeth a allai adnabod person pan fo posibilrwydd y gallai rhywun neu rywrai glywed y trafod neu pan allai pobl nad ydyn nhw ynghlwm wrth ofal y person weld gwybodaeth amdano neu amdani
- sicrhau bod pawb yn y tîm yn deall yr angen i gynnal preifatrwydd a chyfrinachedd pobl
- gweithio mewn partneriaeth gyda'r person wrth drafod a ddylid rhannu gwybodaeth amdano neu amdani, heblaw am achosion pa na fyddai'n briodol gwneud hynny

## Safon 8

# Rhaid i weithwyr fferyllol proffesiynol godi llais pan fo ganddynt bryder neu pan fo pethau'n mynd o chwith

### Gweithredu'r safon

Mae ansawdd y gofal mae pobl yn ei dderbyn yn gwella pan fo gweithwyr fferyllol proffesiynol yn gallu dysgu gan adborth a phan fo pethau'n mynd o chwith a herio ymarfer ac ymddygiad gwael. Mae hyn yn cynnwys codi llais pan fo ganddynt bryderon. Wrth galon y safon hon mae'r angen i fod yn agored ac yn onest gyda'r person dan sylw a gyda chydweithwyr a chyflogwyr. Cyfeirir at hyn fel y 'ddyletswydd didwylledd' fel arfer – sy'n golygu bod yn onest pan fo pethau'n mynd o le. Mae nifer o ffyrdd o gyrraedd y safon hon ac mae enghreifftiau o'r agwedd a'r ymddygiad a ddisgwylir isod.

Mae pobl yn derbyn gofal diogel ac effeithiol pan fo gweithwyr fferyllol proffesiynol yn:

- hybu ac annog diwylliant o ddysgu a gwelliant
- herio ymarfer ac ymddygiad gwael
- mynegi pryderon, hyd yn oed pan nad yw'n hawdd gwneud hynny
- dweud wrth eu cyflogwr a phob awdurdod perthnasol (gan gynnwys y CFfC) am unrhyw ofidiau a allai fod ganddynt
- cefnogi pobl sy'n mynegi pryderon a darparu adborth
- agored ac yn onest pan fo pethau'n mynd o chwith
- ymddiheuro, yn esbonio ac yn gweithredu i unioni unrhyw gam pan fo pethau'n mynd o chwith
- ystyried adborth neu bryderon, ac yn gweithredu arnyn nhw, ac yn ystyried sut gellir atal y sefyllfa rhag codi eto
- gwella ansawdd gofal a fferylliaeth drwy ddysgu gan adborth a phan fo pethau'n mynd o chwith

# Safon 9

## Rhaid i weithwyr fferyllol proffesiynol ddangos arweiniad

### Gweithredu'r safon

Gall pob gweithiwr fferyllol proffesiynol ddangos arweiniad, beth bynnag ei rôl. Mae arweiniad yn cynnwys cymryd cyfrifoldeb am weithredoedd ac arwain drwy esiampl. Ym mha le bynnag y mae gweithiwr fferyllol proffesiynol yn gweithio, rhaid iddo neu iddi roi arweiniad i'r bobl mae'n gweithio gyda nhw ac i eraill. Mae nifer o ffyrdd o gyrraedd y safon hon ac mae enghreifftiau o'r agwedd a'r ymddygiad a ddisgwylir isod.

Mae pobl yn derbyn gofal diogel ac effeithiol pan fo gweithwyr fferyllol proffesiynol yn:

- cymryd cyfrifoldeb dros eu gwaith ac yn arwain y bobl maent yn gweithio gyda nhw
- asesu'r risgiau yn y gofal a ddarperir ganddynt a gwneud popeth o fewn eu gallu i gadw'r risgiau mor isel â phosibl
- cyfrannau at addysg, hyfforddiant a datblygiad y tîm neu bobl eraill
- dirprwyo tasgau ddim ond i bobl gymwys sydd wedi eu hyfforddi'n briodol, neu sy'n cael eu hyfforddi, a sicrhau bod ganddynt drosolwg priodol dros y gwaith
- peidio â chymryd mantais ar eu sefyllfa neu ddylanwadu ar eraill i gymryd mantais ar eu sefyllfa nhwythau
- arwain drwy esiampl, yn enwedig o ran pobl sy'n gweithio tuag at gofrestru fel gweithwyr fferyllol proffesiynol

**Cyngor Fferyllol Cyffredinol**
**25 Canada Square, London E14 5LQ**
Ff **020 3713 8000**
E **info@pharmacyregulation.org**

**@TheGPhC**
**TheGPhC**
**/company/general-pharmaceutical-council**
**www.pharmacyregulation.org**